Y CYLCHGRAWN CYMRAEG SY'N MYNNU PARCH I'R DDAEAR

# Y Papur Gwyrdd

Rhif 26 Hydref / Tachwedd 2011 PRIS: £1

## 'Sŵn y gwynt sy'n chwythu'

### Beth oedd neges Corwynt Irene?

## Mawrion glo brig yn mynnu difrodi Cymru a'r blaned - eto!

GARETH CLUBB - CYFEILLION Y DDAEAR

## Mynnu hawliau'r Gymraeg - a'r amgylchedd

## Llandeilo - wynebu cewri'r archfarchnadoedd

ISSN 1755-3504

10

► Charlotte Davies — Arestio cannoedd o brotestwyr gwyrdd America ► Branwen Niclas — Profi sychdwr Kenya ► Marial Edwards — Ysgolion Gwynedd yn tocio'r carbon ► Hybu ynni adnewyddol Cymru

► Newyddion Gwyrdd o bedwar ban

Cefnogi'r Gymraeg
Investing in Welsh

## Y PAPUR GWYRDD

***Llais Cymraeg annibynnol i'r ymgyrch i fynnu parch i'r Ddaear***

Golygydd: Hywel Davies
Cyfeiriad: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX
Ffôn: 01792 798162 Ebost: ypapurgwyrdd1@btinternet.com
Gwefan: www.ypapurgwyrdd.com
Hefyd ar Weplyfr / Facebook

Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan Hywel a'r Dr Charlotte Davies (cwmni Y Papur Gwyrdd Cyf.)

Argreffir Y Papur Gwyrdd yn ddigidol gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynachlog Nedd, Castell-nedd SA10 7DR.


**BRAF yn y rhifyn hwn o'r Papur Gwyrdd yw nodi bod mentrau ynni adnewyddol, carbon isel Cymru'n bwriadu taro 'nôl yn erbyn yr ysbryd negyddol sydd wedi codi mewn rhai mannau yn eu herbyn. Ceir gwybodaeth ar y tudalen hwn am gynhadledd i hybu ynni nad yw'n difrodi'r Ddaear.**

**Gwelir rheswm arall dros hybu'r diwydiant ynni amgen ar dudalen 3 - sef twf newydd y diwydiant glo. Mae glo'n diflasu bywyd cymunedol, yn achosi Cynhesu Byd-eang - ac yn ail-godi hen dristwch. Trown at ynni glân.**

## CYNNWYS


**3** NEWYDDION
Cwmniau glo'n addo mwy o chwalfa

**4** GOLYGYDDOL
**Hywel Davies —** Pa gosb i'r '*feral overclass*' sy'n dinistrio'r blaned?

Y siopau mawr — diwedd ar yr *entrepreneur* lleol

**5** YMGYRCHU
**Gareth Clubb —** Asio'r Gymraeg a'r amgylchedd

**6** TRAFNIDIAETH
Rhaid pwyllo wrth godi ffyrdd newydd

**Ennill a Cholli**
Ymgyrch y Ddaear

**7** **Charlotte Davies —** Protestwyr y Tŷ Gwyn yn rhoi pwysau gwyrdd ar yr Arlywydd Obama

**8** HINSAWDD
'Sŵn y gwynt sy'n chwythu' - rhybudd corwynt enfawr Irene

CYMDEITHAS
**Tim Shaw —** Y frwydr i warchod Llandeilo

**9** ADDYSG
Plant Ysgol Gwynedd yn torri'r carbon

**10** **Daear-iadur**
Beth sy' 'mlaen yng Nghymru?

**11** **Branwen Niclas —** Y sychdwr yn Kenya

**Y byd a'r aelwyd**
Gardd, ynni — a Fochriw

*MATRESI ORGANIG ABACA, tudalen 12*











# Cynhadledd genedlaethol i hybu ynni adnewyddol Cymru



**CYNHELIR cynhadledd genedlaethol yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen ger Machynlleth yn ystod mis Hydref gyda'r nod o egluro'r manteision economaidd, amgylcheddol a chymunedol a ddaw i Gymru trwy fentrau ynni cynaladwy.**

Cadeirydd y gynhadledd fydd y cyn AS ac AC, Cynog Dafis. Ymysg y siaradwyr fydd Peter Davies (Comisiynydd Dyfodol Cynaladwy Cymru), Brian Morgan (Athro Entrepreneuriaeth UWIC) a Roger Thomas (Prif Weithredwr Cyngor Cefn Gwlad Cymru) ynghyd â chynrychiolwyr busnesau ynni adnewyddol Cymru.

Penderfynwyd trefnu'r gynhadledd mewn cyfarfod ar Faes Prifwyl Wrecsam yn dilyn cyfnod o brotestio yn erbyn cynlluniau am fwy o dyrbinau gwynt yng nghanolbarth Cymru.

Mae'r mentrau adnewyddol yn mynnu bod Cymru'n dioddef oherwydd lefel y gwrthwynebiad i gynlluniau ynni carbon isel.

Meddir: "Mae protestiadau yn erbyn ynni gwynt yn bygwth dyfodol y diwydiant ynni adnewyddol yng Nghymru, ac yn rhwystro datblygiad sgiliau, hyfforddiant ac ymchwil gwyrdd a allai adfywio ein diwydiant cynhyrchu."

**►Cynhelir y gynhadledd ar Ddydd Llun, Hydref 17, o 9.30 i 5 o'r gloch.**

**Rhaid archebu llefydd o flaen llaw trwy: admin@renewablewalesnetwork.org.uk neu wrth ffonio 02920 487099.**

## Y Papur Gwyrdd - yn eich siop leol neu drwy'r post

Mae'r **Papur Gwyrdd** ar werth gan lyfrwerthwyr da led-led Cymru. Ond os nad yw ar gael yn eich ardal chi, mae croeso i chi danysgrifio i'w dderbyn trwy'r post. Llanwch y ffurflen isod a'i danfon gyda'ch taliad atom:

ENW: ..................................................................

CYFEIRIAD: ..........................................................

........................................... Côd Post.................

Amgaeaf siec at '**Y Papur Gwyrdd**' am ...................

(Unigolion: £6 am 6 rhifyn. Croesewir cyfraniadau i gynorthwyo gyda chostau postio. Sefydliadau: £8.50).

Danfonwch y ffurflen hon gyda'ch siec at:
Y Papur Gwyrdd, 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX

**EDRYCHWN YMLAEN AT EICH CROESAWU FEL TANYSGRIFIWR I'R PAPUR GWYRDD**

# YPG — YN ARWAIN GYDA RHYBUDDION O'R ARCTIG ...

**Y Papur Gwyrdd, Rhagfyr / Ionawr 2010 / 11** **Y Western Mail, Medi 2, 2011**


Y PAPUR GWYRDD RHAGFYR / IONAWR 2010-11 3.

*Gwyddonydd yn synnu at freuder yr Arctig*

YN gynt eleni, aeth y Dr Alun Hubbard o Sefydliad Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth, ar daith i'r Arctig ar long Greenpeace, *Arctic Sunrise*. Synnodd wrth brofi enciliad yr iâ drosto'i hun. Dyma ran o adroddiad ganddo yn rhifyn cyfredol *Prom*, cylchgrawn y Brifysgol ...

'... ROEDD y syniad o fod ar daith gyda Greenpeace yn fy niddori – roeddent yn sicr yn teithio ymhell ac roedd y syniad o gael hofrennydd a chriw o weithwyr milwriaethus brwd wrth law yn enw gwyddoniaeth (heb i mi orfod gwneud y gwaith papur) yn ddeniadol tu hwnt.

Roedd diddordeb hefyd gennyf i ddysgu mwy am ddulliau cyfryngol Greenpeace – tybed a fyddent yn ceisio dylanwadu ar unrhyw ganfyddiadau a gosod pwysau ar fy adroddiadau i sicrhau'r neges roeddent am ei chyfleu: rwyf i wrth fy modd yn dadlau, ac roeddwn yn edrych ymlaen at weld faint o hipis dwl y gallwn i eu tramgwyddo cyn cael fy nhaflu i'r dŵr.

Fy amheuaeth i oedd bod y rhewlifoedd allfa gogleddol


'Roeddem ni wedi cofnodi ardal o ddŵr oedd 30 milltir o led ac a oedd yn 12°C i ddyfnder o 20 medr' - Dr Alun Hubbard



Cafodd y gwyddonydd Dr Alun Hubbard o Brifysgol Aberystwyth ei synnu gan olygfeydd fel hyn o eangderau o ddŵr cymharol gynnes yn yr Arctig lle disgwyliai weld iâ trwchus. [Stori, tud 3]. TÎM LLUNIAU: Nick Cobbing, Jason Box, Alun Hubbard, Trudy Wohlleben


Mail WalesOnline.co.uk Friday, 2 September 2011

Scientist is speechless as glacier just turns to water

HELEN TURNER helen.turner@walesonline.co.uk

VAST GREENLAND ICE BLOCK MELTS AWAY IN TWO YEARS



**BU'R Papur Gwyrdd yn falch i gael cymorth y Dr Alun Hibbard o Brifysgol Aberystwyth i gyhoeddi ei syndod wrth ymweld â'r Arctig i fesur pa mor gyflym yr oedd iâ môr a rhewlifoedd yn toddi. Cafodd ef a'i dîm gwyddonol sylw byd-eang am eu gwaith. Nawr bod y stori wedi cyrraedd y WM, gobeithio bydd rhai o'i llythyrwyr yn talu sylw i rybuddion Cynhesu Byd-eang a rhoi'r gorau i wadu'r cyfan.**

# Ofnau ym Merthyr am losgydd Covanta

**MAE Merthyr Tudful dan warchae.**

**Eisoes, mae pobl leol yn dioddef effeithiau safle glo brig Ffos-y-fran.**

**Nawr maen nhw'n ofni penderfyniad corff hollol annemocrataidd ac Anghymreig yr IPC ar gais cwmni Americanaidd Covanta i losgi 750,000 tunnell o wastraff yn yr un ardal.**

**Sefydlwyd yr IPC gan Lywodraeth DG i gyflymu'r broses gynllunio am bwerdai fel Covanta fydd yn cynhyrchu mwy na 50 megawat o drydan trwy eu llosgydd sbwriel.**

**Bu gwrthwynebiad cryf ym Merthyr i'r cynllun gyda chymorth Cyfeillion y Ddaear Cymru, a chafwyd ymestyniad i'r cyfnod ymgynghori wrth i Covanta newid eu cynlluniau ynghanol y broses.**

**Bellach derbyniwyd y cyfan o'r llu o wrthwynebiadau. Bwriad yr IPC yw cyhoeddi eu penderfyniad er Chwefror 8, 2012. Yn y cyfamser, mae'r frwydr yn erbyn y llosgydd yn parhau.**

Mae Cyfeillion y Ddaear Cymru wedi bod yn gwarchod yr amgylchedd a gwneud pethau'n well i bobl Cymru ers mwy na 25 mlynedd.

Mae grwpiau lleol Cyfeillion y Ddaear yn cyfarfod drwy Gymru gyfan. Cymerwch ran, a helpwch ni i wneud gwahaniaeth yn lleol ac yn fyd-eang.

www.cyddcymru.co.uk
02920 229 577

Cyfeillion y Ddaear Cymru
Friends of the Earth Cymru

# Glo i achosi mwy o ddifrod i Flaenau'r Cymoedd

## CWMNIAU'N PARATOI DAU SAFLE GLO BRIG NEWYDD — GER FOCHRIW AC ABERDAR

**MAE'R weledigaeth o Gymru lan a gwyrdd fydd wedi troi cefn unwaith ac am byth ar fryntni'r diwydiant glo wedi cael dwy ergyd newydd gan ddau gwmni o Loegr sydd am elwa trwy roi hwb pellach i bwerdai trydan sy'n achosi llygredd carbon difrodol.**

► Mae cwmni Hargreaves o County Durham wedi ennill caniatad i greu safle glo brig ar dir hen bwll glo'r Tŵr yn Hirwaun. Hargreaves yw perchnogion pwll glo Maltby yn Rochdale, ac amryw o fentrau diwydiannol eraill. Ar gyfer eu hantur Cymreig aethant ati i ffurfio cwmni Tower Regeneration Ltd gyda 290 cyn-lowyr y Tŵr dan arweiniad Tyrone O'Sullivan.

► Mae corfforaeth mawr Miller Argent – sydd eisoes wrthi'n darnio copa mynydd uwch Merthyr Tudful – wedi datgan eu bwriad i ymestyn eu cloddio yn Nant Llesg ger Fochriw, Pontlottyn a Rhymni. Cyfuniad yw Miller Argent o gwmni tai, eiddo ac adeiladu mwyaf y DG, sef Miller, a chwmni datblygu mawr Argent sy'n eiddo i British Telecom.

Golyga cynlluniau'r ddau gwmni y byddai rhes erchyll o safleoedd glo brig yn ymestyn ar draws Blaenau'r Cymoedd o East Pit (Cwmllynfell), Selar (Banwen), Tŵr (Hirwaun), Ffos-y-fran (Merthyr Tudful) i Nant Llesg (Fochriw) gan wneud jôc o ymdrechion Llywodraeth Cymru i ddatblygu'r diwydiant twristaidd addawol yn ardal Blaenau'r Cymoedd.

Mae'n amlwg hefyd yn chwalu gobeithion fel y rhai gafodd eu cyflwyno gan Jonathan Edwards AS (Plaid Cymru, Dwyrain Caerfyrddin) yn Senedd Llansteffan: "Mae Cymru eisiau bod yn wlad werddach ac eisiau arbenigo mewn [ynni] adnewyddol ac economi werdd." (Medi 6)

Y realiti yw bod Cyngor Rhondda Cynon Taf – sy'n cael ei reoli gan y Blaid Lafur – wedi rhoi caniatad fis Gorffennaf diwethaf i gynllun safle Tŵr. Disgwylir i waith ddechrau ar y safle yn fuan gan fwydo pwerdy Aberddawan – achoswr llygredd $CO_2$ gwaethaf Cymru.

Bellach, mae Miller Argent wedi cyhoeddi eu bwriad i achosi trais trefedigaethol newydd yng Nghymru. Eisoes yn gyfrifol am rwygo Ffos-y-fran i ddyfnder o 600 troedfedd ym Merthyr gerllaw, mae'r cwmni wedi syfrdanu pobl pen uchaf Cwm Rhymni yn ardal Cyngor Sir Caerffili — sy'n cael eu rheoli gan Blaid Cymru. Datganiad gormesol corfforaeth ariangar Miller Argent yw eu bod wedi dechrau tyllu wrth baratoi am gais codi glo am gyfnod o 15 mlynedd gan rwygo dros 950 acer i godi 7 miliwn tunnell o lo — gan bron dyblu'r 1,000 o aceri sydd ganddynt yn Ffos-y-fran.

Dywed adroddiadau bod disgwyliad y bydd cwmni Hargreaves yn elwa o £60 miliwn y flwyddyn o'r fenter ger Hirwaun, gan godi chwech miliwn

**Parhad ar dudalen 4**

**GOLYGYDDOL** **HYWEL DAVIES**



# Pa beth a wnawn a'r '*feral overclass*' sy'n difrodi'r Ddaear?

**DIODDEFODD rhai o ddinasoedd Lloegr yn enbyd gan y terfysgoedd a'u siglodd mor sydyn yn ystod yr haf. A chafodd llaweroedd o bobl ifainc euog eu cosbi'n llym iawn am eu drwgweithredoedd.**

Wedi hynny, bu rhai yn y wasg yn ein hatgoffa bod pendefigion y byd bancio wedi ymddwyn yr un mor anghyfrifol o ddinistriol yn y byd ariannol am flynyddoedd – gan achosi loes i filiynau di-ri' o bobl gyffredin — ond heb wynebu unrhyw lys na thalu unrhyw gosb.

Ond peidiwn â bod yn annheg â'r bancwyr trwy awgrymu mai dim ond nhw ymhlith penaethiaid byd busnes sy'n euog o achosi chwalfa gymdeithasol.

Os trown at les y blaned Ddaear y dibynnwn arni, gwelwn



batrwm hanesyddol o berchnogion cyfalafol unigol a chorfforaethau byd-eang sy'n credu bod gwneud elw'n cyfiawnhau difrod ar raddfa anferth i'r amgylchedd. Gwelir y patrwm ledled y byd.

Teflir tipiau gwastraff ar lethrau hardd. Arllwysir cemegau i afonydd a ffynhonnau dwfn. Chwelir mynyddoedd. Caiff nwyon eu rhyddhau i halogi'r awyr a newid ei gydbwysedd hanfodol. Caiff fforestydd eu hysgubo ymaith fel 'taen nhw erioed wedi bodoli. Gollyngir olew i'r môr ac i'r tir. Rhwygir gweundiroedd yn y ras wyllt i godi glo brig. Sychir gwlypdiroedd. Chwelir cynefinoedd holl bwysig i barhad pobl frodorol a rhywogaethau amrywiol byd natur. Ac ymlaen â'r niwed wrth i ddiwydiannau ddyfeisio mwy o ddulliau dinistr wrth lyncu adnoddau'r Ddaear mor wyllt.

Gwneir y cyfan gyda'r pwyslais canolog ar y llinell isaf ar yr unig fantolen sy'n cyfrif i ddiwydiant a masnach, sef y fantolen ariannol. Lle wynebant grwpiau amgylcheddol gweithgar, ceir gan eu hadrannau cysylltiadau cyhoeddus frolio mawr am, er enghraifft, adfer tir, fel yn achos Miller Argent yn ardal Merthyr a Rhymni, a Hargreaves yn Hirwaun. Hyd yn oed wedyn, gadael tir gwag a diffaith y maent. Ond y patrwm arferol ledled ein Daear yw dinistr, gan adael y gost o adfer i gymunedau.

Ac, yn wahanol i'r bobl ifainc yn ninasoedd Lloegr, caiff penaethiaid y cwmnïau hyn eu llongyfarch a'u hanrhydeddu. Yn symbol o'r cyfan yw'r wybodaeth bod Tony Hayward, pennaeth BP yn America pan achoswyd allyriad olew enbyd Gwlff Mecsico, yn disgwyl gwneud £14miliwn wrth greu cwmni newydd i dyllu am olew yn Cwrdistan!

Ein barn ni yw y dylwn geisio bod yn gefn i bob cymuned a mudiad sy'n codi llais yn erbyn y drefn ddifrodol hon sy'n bygwth pobl a Daear.

Safwn gyda phobl Fochriw, Pontlottyn a Rhymni yn erbyn ehangiad glo brig Miller Argent (gan sylwi mai'r Ffrangeg am 'arian' yw 'l'argent'); safwn gyda phobl Nueva Esperanza yn erbyn dinistr Goldcorp yn Guatemala; safwn gyda phobl Kentucky yn erbyn y cwmnïau glo brig anghyfrifol sy'n symud copaon mynyddoedd ac yn llygru afonydd yno; safwn gyda phobl frodorol Alberta yn erbyn sugno'u tiroedd am olew tywod gan gorfforaethau mawr sy'n heidio yno fel adar ysglyfaethus; a safwn gyda llwyth y Guarani yn Brasil i atal Shell rhag dwyn a llygru eu tiroedd hwy.

Ydy, mae'r rhestr yn ddiddiwedd, cymaint yw'r alwad am elw gan benaethiaid a chyfranddalwyr. Beth, tybed, fyddai ynadon a barnwyr Lloegr yn gwneud gyda'r ynfydion distrywgar hyn — y *'feral overclass,'* i gamddyfynu un o wleidyddion mwya'r wlad honno. Eu canmol, bid siwr.

---

PARHAD O DUDALEN 3:

## Difrod glo ym Mlaenau'r Cymoedd

tunnell o lo dros gyfnod o saith mlynedd. Mae safle Ffos-y-fran i bara dros 17 mlynedd gan sicrhau elw anferth tebyg i Miller Argent.

Mae'r grŵp lleol sy'n ceisio'n galed i gadw difrod Miller Argent dan reolaeth ym Merthyr nawr yn rhannu eu profiadau diflas gyda phentrefwyr Fochriw, Pontlottyn a Rhymni sydd wedi cychwyn ar eu protestiadau cymunedol nhw.

Yr abwyd gan Miller Argent yw swyddi a 'glendid' ac 'adferiad' — wedi mochyndra fydd yn parhau i'r holl ardal am 15 mlynedd. Dim ots ganddynt am yr allyriadau $CO_2$ ddaw yn sgil eu gwaith i achosi Cynhesu Byd-eang a Newid Hinsawdd eithafol i'r Ddaear gyfan gan nad oes systemau CCS yn bod i ddal y carbon. ■

# Sainsbury v Llandeilo

**Y DREF ddiweddaraf yng Nghymru i wynebu cael ei meddiannu gan archfarchnad yw tref hyfryd Llandeilo, y dref gyntaf yng Nghymru i gyrraedd statws Tref Trawsnewid.**

Fel rhan o fudiad Trefi Trawsnewid, un o'u prif amcanion yw hybu'r economi leol fel bod llai o ddibyniaeth, e.e., ar drafnidiaeth sy'n defnyddio olew'r Ddaear sy'n prysur leihau.

Yn eironig, mae Llandeilo ei hun, bellach, yn wynebu bygythiad sy'n negyddu popeth maen nhw'n sefyll drosto. Cyhoeddodd cwmni Sainsbury gynllun i godi un o'u canolfannau gwerthu anferth a maes parcio ar gyrion y dref (gweler tudalen 8).

Bwriad Sainsbury, fel pob un o'r archfarchnadoedd sy'n cystadlu â'i gilydd, yw elwa trwy chwalu economïau lleol. Yn Llandeilo, eu nod yw denu siopwyr o ganol y dref wledig hardd hon at eu *check-outs* digymeriad nhw, gan symud yr elw i'w pencadlys yn Lloegr.

Gyda'u hadnoddau ariannol anferth, bu Sainsbury eisoes yn cynnal ymgyrch PR gref i hybu cefnogaeth leol. Ond, chwalu Stryd Rhosmaen fel stryd siopa yw eu nod.



Oherwydd maint eu cryfder ariannol, fel archfarchnadoedd eraill, mae ganddynt gyfreithwyr arbenigol sy'n gwybod sut i ddefnyddio pob tacteg sydd ar gael yn y broses gynllunio. Ac os oes atal, mae ganddynt y nerth i ddod 'nôl gydag ail ymosodiad, fel yn achos Tesco ym Machynlleth.

Fel y bu gyda threfi ledled gwledydd Prydain, bydd rhoi caniatâd i godi archfarchnad gan Sainsbury yn newid cymeriad Llandeilo. Dyma dref arall fydd yn colli'i harbenigrwydd a'i hunaniaeth.

Un o'r anfanteision dros y math o ganoli a gynigir gan archfarchnadoedd yw'r cyfyngiad a osodir ar weithgareddau busnes gan bobl leol. Mae archfarchnadoedd yn meddiannu economi, yn canoli gwerthiant, yn cyflogi gweithwyr. Trwy hynny, maent yn lleihau'r cyfle i drigolion lleol gyfrannu'n uniongyrchol at yr economi trwy greu eu busnesau annibynnol eu hunain. Dyna ddiwedd ar yr *entrepreneur* lleol. Ergyd sylweddol iawn yw hynny i gymunedau balch, fel Llandeilo, sydd â hen hanes o sefyll ar eu traed eu hunain.

Tref brydferth, ddiddorol, a hanesyddol yw Llandeilo sy'n dangos cryn greadigrwydd ac arweiniad wrth wynebu dyfodol ansicr ein byd. Mae ganddynt amrywiaeth hyfryd o siopau (gan gynnwys un sylweddol y Co-op, a berchnogir gan gwsmeriaid), tai bwyta, orielau, a gwestai ynghyd â bywyd cymunedol gyfoethog. Trysor genedlaethol ydyw i ni'r Cymry.

Ond, i Sainsbury, dim ond uned fach fydd Llandeilo — dan y llythyren 'L', siwr o fod. Ac ni wnaiff prisoedd rhatach, os dyna a geir, byth gwneud yn iawn am y golled a ddaw wrth i'r anghenfil hon gamu i'r fro. ■

## AR DAITH MÔR O GYLCH Y BYD — GYDAG YNNI'R HAUL

**MAE catamaran sy'n edrych mwy fel llong ofod yn teithio o gylch y byd wrth gael ei phweru gan drydan o baneli haul.**

**Cynlluniwyd y *Turanor PlanetSolar* yn Seland Newydd a'i hadeiladu yn yr Almaen. Ym Medi 2010 dechreuodd ar ei thaith o Monaco a hyd yn hyn mae wedi croesi'r Iwerydd a galw mewn mannau fel Miami, Panama, Ynysoedd Galapagos, Awstralia, y Philipinas a Singapore gan deithio dros 25,000 milltir.**

**Gyda 5,300 troedfedd sgwâr o baneli haul ffotofoltaidd, mae'r llong yn arbrawf gwyddonol yn hytrach na phatrwm ar gyfer llongau masnachol. Edrychir arni gan ei noddwyr fel cyfle i asesu'r rhan y gallai trydan haul chwarae wrth bweru llongau'r dyfodol.**



Turanor PlanetSolar: http://www.planetsolar.org

# Fel gyda'r Gymraeg, rhaid gwthio am hawliau amgylcheddol

**ERS dyddiau ysgol – drwy chwarae yn yr awyr iach, fy ngwersi Cymraeg, a phropaganda fy nhad (oedd yn athro hanes) – rwy'n ymwybodol bod Cymru'n lle arbennig.**

Yn ddigon cynnar, hefyd, ymunais ag ymgyrchoedd amgylch-eddol ein hysgol, yn eistedd mewn bocsys cardfwrdd tu allan i orsaf fysiau Pen-y-bont ar Ogwr i dynnu sylw at gyflwr pobloedd y 'trydydd byd'. A dechrau cymdeithasu gyda chyfeillion newydd a dderbyniai — yn rhyfeddol i mi! — eu holl addysg trwy'r Gymraeg.

Mae gennym gefn gwlad anhygoel ac iaith unigryw a does dim modd gwadu'r cysylltiad agos rhyngddynt. Does dim ond rhaid edrych ymhellach na dwy elfen fwyaf cyffredin ein henwau lleoedd, 'aber' a 'llan', i weld y cyswllt rhwng y dirwedd a'n hanes a'r Gymraeg. A does dim un gair Saesneg sy'n cyfateb i'r naill na'r llall.

### SARNU AR YR IAITH

Yn anffodus, mae enghreifftiau di-ri o sefydliadau'n sarnu ar yr iaith a'r amgylchedd fel ei gilydd. Cymerwch fy hen filltir sgwâr i, lle'r oedd llecyn hyfryd o'r enw 'Cefn Hirgoed'. Bellach does neb yn defnyddio'r hen enw gan fod busnesau mawr wedi penderfynu bod yn well ganddynt 'The Pines Shopping Centre / Bridgend Designer Outlet'. Wrth reswm, mae meysydd parcio enfawr i gyd-fynd â'r datblygiad.



Gan GARETH CLUBB

Mae busnesau mawr wedi cyfrannu'n helaeth at ddirywiad y Gymraeg ers degawdau. Gwnaiff llond dwrn o arwyddion Cymraeg y tro – 'iaith-galch', neu 'Welsh-wash' go iawn.

Yn yr un modd, pitw iawn ar y cyfan yw'r sylw a roddir i'r amgylchedd gan fusnesau mawr. Wedi'r cwbl, os nad yw eu cyfranddalwyr hollbwysig yn mynd i elwa, does dim diben gweithredu.

Mae cryn debygrwydd rhwng y frwydr i hybu iaith a hybu bywyd gwyllt. Dyw hi ddim yn ddigon i atal bygythiadau; mae'n rhaid sicrhau cynefin iach lle gallent ffynnu hefyd.

Felly, nid ar y busnesau mawr y mae'r holl fai am eu methiannau. Maent yn gweithredu o fewn cyfundrefn a osodir gan lywodraethau - llywodraethau sydd wedi llusgo'u traed ers degawdau ar hawliau ieithyddol ac amgylcheddol.

Dim ond ymdrechion anferthol gan fudiadau, gan gynnwys Cyfeillion y Ddaear Cymru, gyda chefnogaeth miloedd ar filoedd o bobl gyffredin, sydd wedi darbwyllo llywodraethau i ddeddfu dros hawliau ieithyddol ac amgylcheddol - hawliau sy'n gwbl annigonol, fel y bydd

... Gareth Clubb, Pennaeth newydd Cyfeillion y Ddaear Cymru'n galw am eich cymorth yn y frwydr

rhan helaeth darllenwyr **Y Papur Gwyrdd** yn cytuno.

Megis dechrau yw'r gwaith, ac rydym yn dal i bwyso ar Lywodraeth Cymru i greu Siarter Hawliau Amgylcheddol Cymru fyddai'n cydnabod hawl pobl i fyw mewn amgylchedd glân.

Ond pwy sy'n ethol y llywodraethau hyn? Neb llai na ninnau. Yn ein dwylo ni mae'r grym i newid y gyfundrefn y mae'r busnesau yn gweithio ynddi sydd ddim yn gosod gwerth ar yr iaith na'r amgylchedd.

### CWBL ANNIGONOL

Mae cylchgronau Cyfeillion y Ddaear yn herio pobl trwy ddweud - "Os wnewch chi dim ond un peth y mis yma, gwnewch...". A dyna sydd ei angen arnom ni i gyd i newid y byd er gwell. Rhaid peidio bodloni ar y sefyllfa sydd ohoni, peidio meddwl 'gwnaiff hyn y tro', achos dyw pethau ddim yn ddigon da o bell ffordd. Ac i'r rhai ohonoch sy'n cecru a beirniadu heb weithredu (rhai o'm cyfeillion fy hun ymhlith y rheiny), deffrowch, gyfeillion. Mae angen eich cymorth chi yn y brwydrau sydd o'n blaenau.

Mae Cymru ymhell y tu ôl iddi o safbwynt perfformiad amgylcheddol. Cymerwch ein hymdrechion i leihau allyriadau tŷ gwydr: bydd angen gwella ein perfformiad bedair gwaith i gyrraedd ein targed am 2020. Bydd y nod o leihau allyriadau 3 y cant y flwyddyn, a honno'n nod cwbl annigonol yng ngwyneb y dystiolaeth wyddonol, yn amhosib heb

*Parhau ar dudalen 6*

## OZ YN ARWAIN!

**DA IAWN AWSTRALIA AM DDEDDFU BOD 500 O'U CWMNIAU BUDR YN TALU AM EU HALLYRIADAU $CO_2$**




## DINISTRIO'R MÔR

MAE'R Cenhedloedd Unedig wedi derbyn adroddiad gan grŵp o wyddonwyr sy'n rhybuddio bod bywyd y môr ar fin diflannu'n llwyr. Newid hinsawdd, llygredd a gorbysgota sy'n cael y bai. Medd yr adroddiad gan 27 arbenigwr, "Rydyn ni'n wynebu colli rhywogaethau môr ac ecosystemau morol cyfan, fel creigresi cwrel, o fewn un genhedlaeth." Dywedir nad oes diflaniad wedi digwydd mor gyflym â hyn erioed o'r blaen. Gelwir am ymateb rhyngwladol ar frys.

## BANGLADESH HEULOG

NEWYDDION da am ehangiad ynni haul o Bangladesh sy'n dioddef eisoes o newid hinsawdd eithafol o ganlyniad i allyriadau carbon, fel y ceir, e.e., o Gymru. Erbyn hyn, mae dros filiwn o gartrefi yn Bangladesh yn cael eu trydan o ynni haul. Dyma'r twf cyflymaf a welwyd yn y byd, medd llywodraeth y wlad: dim ond 7,000 o dai oedd a phaneli ffotofoltaidd yn 2002. Nod Bangladesh yw cyrraedd 2.5 miliwn erbyn 2014.

## GWRTHOD SHELL

MAE llwyth y Guarani ym Mrasil yn mynnu bod y cawr ynni Shell yn ymatal rhag defnyddio tiroedd eu hynafiaid ar gyfer y diwydiant ethanol. Mae Shell wedi creu isgwmni o'r enw Raizen i gynhyrchu a gwerthu ethanol o *sugar cane* a dyfir ar diroedd y bobloedd frodorol. Meddai'r Guarani: "Rhaid i Shell adael ein tir ... Rydym yn galw am gyfiawnder; rhaid mapio a gwarchod ein tiroedd." Mae cemegau sy'n cael eu chwistrellu ar y planhigion yn niweidio iechyd y brodorion ac yn lladd pysgod a phlanhigion.

## BOTSWANA

NEWYDDION da o Botswana am lwyth o bobl frodorol sydd wedi cael dychwelyd i ffynnon a thiroedd traddodiadol eu hynafiaid am y tro cyntaf ers blynyddoedd. Mae hi wedi bod yn frwydr galed i drigolion Gwarchodfa Anifeiliaid y Kalahari lle'r oedd Llywodraeth Botswana wedi gosod gorchudd dros eu pwll dŵr yn 2002 mewn ymgais i ddod â'u ffordd o fyw i ben. Bellach, mae'r bobl wedi cael dychwelyd i'w tiroedd ac ailagorwyd y ffynnon gan fudiad Vox Unedig gyda phwmp ynni haul.



**Diodora Antonia Hernández Cinto: ei saethu wedi protestio**

## GORMES GOLDCORP

MAE ymgyrch gref yn Guatemala yn erbyn dulliau difrodol o gloddio agored ar gyfer metalau. Yn benodol, gelwir am gau safle arian ac aur cwmni Goldcorp o Ganada sy'n achosi chwalfa gymdeithasol ac amgylcheddol yng nghymuned Nueva Esperanza ers 2005. Mae Goldcorp wedi anwybyddu gorchymyn y Comisiwn Rhyng-Americanaidd ar Hawliau Dynol i gau'r pwll. Cafodd menyw leol — Diodora Antonia Hernández Cinto — sydd wedi bod yn arwain y gwrthwynebiad eu saethu yn ei llygad ger ei chartref.

## KENTUCKY

MEDDIANODD grŵp o 14 o bobl, gan gynnwys y bardd / ffarmwr / amgylcheddwr Wendell Berry, swyddfa Llywodraethwr Kentucky, UDA, i brotestio yn erbyn difrod amgylcheddol cwmnïau glo brig. Arhosodd y grŵp yn y swyddfa am dair noson gan lansio mudiad newydd *'Kentucky Rising'*. Yn wyneb dinistr y cwmnïau glo, bydd y gweithredu'n parhau — fel y gwelwch ar dudalen *'Kentucky Rising'* ar Weplyfr.

## ESGIDIAU CEMEGOL

MAE Nike, Puma ac Adidas wedi cytuno i beidio â defnyddio cemegau peryglus yn eu prosesau cynhyrchu a dosbarthu esgidiau chwaraeon erbyn 2020. Mae ymgyrch tebyg yn ceisio cael cwmnïau dillad i ddilyn eu hesiampl. Medd Greenpeace bod hyn yn gam pwysig ymlaen yn eu hymdrechion i atal diwydiannau rhag gwenwyno cyflenwadau dŵr.

**Parhad o dudalen 6: Gan Gareth Clubb ...**

# Awn i faes y gad er mwyn y dyfodol

newidiadau sylfaenol i'n ffordd o fyw a gweithio.

Rhaid i ni herio perfformiad trychinebus adrannau llywodraeth fel Adran Ynni a Newid Hinsawdd llywodraeth y DU — o ran yr amgylchedd ond hefyd o ran y Gymraeg: cymerodd yr Adran dros flwyddyn i ymddiheuro bod fersiwn Cymraeg un ddogfen ymgynghorol wedi'i chyhoeddi dros dri mis **ar ôl** dyddiad cau'r ymgynghoriad! Dylen ni fod yn ymateb i'r ymgynghoriadau hyn yn ein cannoedd — yn Gymraeg. Wedi'r cwbl, mae'n hawdd cyfiawnhau darpariaeth annigonol os mai un yn unig sy'n gwneud.

Mae Llywodraeth Cymru'n bwriadu deddfu i osod 'datblygu cynaladwy' fel yr 'egwyddor trefnu ganolog' i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Ni allem orffwys nes bod ôl-troed amgylcheddol Cymru wedi lleihau i'n cyfran gyfartal ar raddfa fyd-eang. Mae unrhyw nod llai uchelgeisiol yn frad i'n chwiorydd a'n brodyr ym mhob gwlad arall.

Ac ni allem laesu dwylo ychwaith nes bod pobl Cymru'n gallu derbyn eu holl wasanaethau trwy eu dewis iaith, boed hynny'n Gymraeg neu'n Saesneg. Mae dwyieithrwydd yn rhan annatod o Gymru gynaladwy.

Awn i faes y gad er mwyn cenedlaethau'r dyfodol. Dwi'n falch na fydd rhaid i'm mab ymgyrchu dros yr hawl i dderbyn rhai gwasanaethau trwy'r Gymraeg, nac am safon effeithlonrwydd ynni tai preswyl. Ond bydd ef a'i debyg yn ysgwyddo baich ein methiannau ni.

Bydd rhaid i bobl frwydro am ddegawdau lawer am hawliau sylfaenol ieithyddol ac amgylcheddol. A pha ffordd well o ysbrydoli'r ifainc na brwydro dros yr hawliau hollbwysig hynny — a'u hennill? ■

# Angen ffordd newydd o gynllunio, medd adroddiad

**DYLAI ffordd osgoi Bontnewydd / Caernarfon gael ei hatal am bum mlynedd a dylai Llywodraeth Cymru fynnu mai'r prif nod wrth ystyried prosiectau ffyrdd newydd yw lleihau allyriadau carbon.**

Dyna ddau o'r awgrymiadau a geir yn adroddiad **Costau Economaidd a Chymdeithasol Prosiectau Ffyrdd yng Nghymru** a baratowyd gan Grŵp Cyfeillion y Ddaear Gwynedd.

Dywed casgliad yr adroddiad: 'Mae prosiectau adeiladu ffyrdd yn costio symiau anferth o arian, ac mae costau'n cynyddu fel arfer wrth i brosiectau symud ymlaen.

'Credwn na ellir cyfiawnhau gwariant mor uchel ar brosiectau ffyrdd, gan gynnwys ffordd osgoi Bontnewydd / Caernarfon, ar adeg o doriadau difrifol i wasanaethau cyhoeddus.

'Credwn hefyd fod prosiectau o'r math hwn yn milwrio yn erbyn ymrwymiad cyhoeddus [Llywodraeth Cymru] i leihad carbon a chynaladwyedd a bod gwell opsiynau'n cael eu hesgeuluso.

'Dylid dilyn ffyrdd mwy cynaladwy o "gysylltu'r genedl" sydd ddim yn ddibynnol ar adeiladu ffyrdd.'

Mae'r adroddiad yn galw, hefyd, am dueddiad cynllunio yn erbyn adeiladu ffyrdd newydd oni ellir profi bod diffyg isadeiledd yn cyfyngu ar adnewyddiad economaidd cynaladwy ardal benodol.

Yn arbennig, meddir, dylid ail-gyfeirio cyllid trafnidiaeth Cymru at ddatblygu systemau trafnidiaeth gyhoeddus hwylusach i ddefnyddwyr.

CAREDIGION Y DDAEAR AMERICA YN CYNNAL PROTEST FAWR GER Y TŶ GWYN

# Mr Obama — Cofia'r blaned, medd 1,250 wrth gael eu harestio

***'Rhaid i ni ddarganfod cyfrwng newydd i weithio ynddo, ac am y pythefnos diwethaf, y cyfrwng hwnnw oedd ein cyrff.'***

*Cannoedd o filoedd yn deisebu yn erbyn cynllun i godi pibell olew tywod difrodol o ogledd Canada i Gwlff Mecsico*

ADRODDIAD GAN CHARLOTTE DAVIES

**DYNA ddywedodd Bill McKibben, awdur ac un o sylfaenwyr y mudiad ymgyrchu amgylcheddol 350.org, ar ddiwedd pythefnos o brotestio y tu allan i'r Tŷ Gwyn yn Washington DC.**

Yn ystod y pythefnos hwnnw yn niwedd Awst, roedd McKibben wedi cael ei arestio am achosi rhwystr ar y palmant – ynghyd â dros 1,250 o bobl eraill – a'i gadw mewn cell am 48 awr.

Roeddent yn protestio yn erbyn cynnig Keystone XL i godi pibell 1700 milltir o hyd o safleoedd enfawr olew tywod yn Alberta, Canada ar draws yr Unol Daleithiau i burfeydd yn Texas ar Gwlff Mecsico. Ym mis Mehefin cafodd y prosiect ei hwyluso gan is-bwyllgor Tŷ Cynrychiolwyr yr UDA, er amheuon bod y penderfyniad yn cael ei wthio ymlaen cyn cwblhau asesiad o'r effeithiau amgylcheddol.

Ac y mae'r effeithiau'n erchyll: Ar wahân i'r creithiau enfawr ar wyneb y ddaear i godi'r olew tywod, mae cael yr olew amrwd ohono yn defnyddio llawer o ddŵr gan lygru ffynonellau dŵr yr un pryd. Mae'r broses hefyd yn defnyddio llawer o ynni — yn ôl asesiad Asiantaeth Gwarchod Amgylcheddol yr UDA, mae'r allyriadau carbon a achosir wrth gael olew o'r tywod yn 82% yn uwch nag am olew o ffynhonnell gonfensiynol.

Ond, ym mis Awst, yng nghanol y protestiadau, dyma ergyd arall. Cyhoeddodd y *State Department* adroddiad yn honni na fyddai anfon 700,000 o fareli olew y dydd o Alberta i Texas yn achosi cynnydd mewn allyriadau carbon - a bod y risg o ollyngiadau o'r olew amrwd, sy'n achosi rhydu drwg, ar hyd bron 2000 o filltiroedd o bibell yn fach!

## BYWYD BRAFIACH?

Mae'r holl dystiolaeth yn dangos bod gan bobl sydd ddim yn gyrru, sydd ddim yn hedfan ar awyrennau, sy'n siopa'n lleol, sy'n tyfu eu bwyd ei hunan, ac sy'n dod i adnabod aelodau eraill eu cymuned â safon byw llawer uwch na'u cymrodyr sy'n dal i fynnu gwneud yr aberth fwyaf — sef o wastraffu eu bywydau trwy yrru i'r gwaith yn eu ceir.'

***Mark Lynas, Six Degrees***

(Mewn pibell debyg, sef Keystone I, roedd 12 o ollyngiadau mewn llai na blwyddyn.)

Yr unig obaith i atal y bibell olew erbyn hyn yw perswadio Arlywydd Obama i anrhydeddu ei addewidion yn ystod ei ymgyrch etholiadol i warchod yr amgylchedd a gweithio dros economi werdd. A dyna beth roedd y miloedd y tu allan i'r Tŷ Gwyn – a'r 618,428 o bobl oedd wedi arwyddo deiseb ar-lein – yn ymdrechu i'w wneud.




**Protestwyr yn rhoi neges glir i'r Tŷ Gwyn. *Llun:* *http://www.350.org***

Roedd pobl hŷn, pobl enwog, pobl broffesiynol yn cymryd rhan amlwg: Cafodd y Dr James Hansen, gwyddonydd 70 oed a phennaeth Sefydliad Goddard am Astudiaeth Gofod NASA, ei arestio ar ôl gweiddi trwy gorn siarad ar Obama i atal Keystone 'er mwyn eich plant a phlant eich plant'. Mae Hansen — awdur ***Storms of My Grandchildren*** — wedi rhybuddio y byddai defnyddio olew tywod yn golygu bod 'y gêm drosodd' i'r blaned.

Hefyd, arestiwyd Naomi Klein o Ganada, awdur ***The Shock Doctrine***. Mewn cyfweliad ar ôl y digwyddiad, soniodd am ragrith y cwmnïau olew, sy'n hysbysebu olew tywod fel 'olew moesol' — gan nad yw'n dod o'r Dwyrain Canol!

Gwrthododd, hefyd, eu honiadau y bydd yr olew yn arwain at 'annibyniaeth ynni' i'r UDA, gan nodi bydd yr olew yn cael ei werthu am y pris uchaf. Fe all fynd i Tsieina, felly, yn union fel digwyddodd yn ddiweddar pan ganiataodd llywodraeth Obama drwyddedau newydd i fwyngloddio glo ym Montana a Wyoming.

Roedd llawer o bobl gyffredin, lai adnabyddus yn gweithredu, hefyd, gan gynnwys lluoedd o bobl ifainc oedd wedi gweithio'n galed i sicrhau llwyddiant Obama yn yr etholiad.

Yn eu plith, roeddwn i – fel un a fagwyd yn Kentucky – yn falch i sylwi bod dau fyfyriwr o'r dalaith honno. Mewn erthygl yn y ***Louisville Courier-Journal***, buont yn atgoffa'r Arlywydd o'r hynny a ddywedodd wrth dderbyn enwebiad y Blaid Ddemocrataidd yn 2008: Yn y dyfodol, meddai, byddwn yn gallu edrych yn ôl a dweud, 'Hon oedd yr eiliad pan ddechreuodd codiad y moroedd arafu a dechreuodd ein planed iachau'.

Ar y trydydd diwrnod ar ddeg o'r protest, ymgasglodd dwsinau o bobl frodorol i fynegi eu consyrn am effaith y bibell ar eu tiroedd a'u diwylliannau. Cododd Debra White Plume, o'r Lakota Sioux, yr ofnau ynglŷn â'i heffaith ar Ddyfrhaen Ogallala ger ei chartref yn Pine Ridge, South Dakota ac ymbiliodd ar Obama i sefyll 'dros Fam Ddaear yn erbyn Tad Trachwant'.


Soniodd Bill Erasmus, pennaeth y Yellowknife o Diriogaethau Gogledd-orllewin Canada, am y niwed roedd ei bobl yn wynebu'n barod: 'Mae ein pobl, mewn rhai ardaloedd, yn methu â bwyta'r pysgod bellach. Mae ein pobl yn methu ag yfed y dŵr. Mae lefelau'r dŵr yn disgyn. Ble 'dw i'n byw, dyw hi erioed wedi bod fel hyn o'r blaen.'

Yng nghanol y protestiadau yn Washington, daeth Corwynt Irene i fyny arfordir dwyreiniol yr UDA. Gan gario llawer mwy o ddŵr nag arfer, achosodd lifogydd enbyd yn nhalaith Vermont gan gynnwys yn arbennig Middlebury, cartref Bill

***PARHAD AR DUDALEN 8***

YN 500 MILLTIR AR DRAWS — CORWYNT IRENE WEDI BYGWTH MILIYNAU

# Arwydd arall o newid hinsawdd?



Anferthedd Corwynt Irene. *LLUNIAU NASA*

**WRTH i Gorwynt Irene anferth fflangellu arfordir dwyreiniol yr Unol Daleithiau a thaleithiau gogledd y wlad yn Awst, yr ofn oedd ei bod yn enghraifft arall o ddatblygiad o batrwm o dywydd eithafol sy'n gyson â'r proffwydo pryderus am newid hinsawdd.**

Mae gwyddonwyr newid hinsawdd yn dal yn gyndyn iawn i ddatgan bod unrhyw storm benodol yn ganlyniad i gynhesu byd-eang a newid hinsawdd ynddo'i hun.

Ond yr hyn sy'n cael ei ddatgan yn amlach yw bod patrwm tywydd mwy eithafol yn cael ei gadarnhau.

Anferthedd Irene oedd ei harbenigrwydd. Roedd hi gymaint â 500 milltir ar draws, gan fygwth 65 miliwn o Americanwyr — y ffigwr fwyaf erioed am unrhyw storm, medd rhai. A hi oedd y corwynt cyntaf i daro'r gogledd ers 1903.

Yn America, lladdwyd 10 o bobl — 55 i gyd ers i'r corwynt ffurfio yn y Caribî — collodd 2 filiwn eu cyflenwad trydan, ac achoswyd rhwng $7 - 10 biliwn o ddifrod i eiddo gan y gwyntoedd nerthol a'r llifogydd enbyd. Roedd dinas Efrog Newydd ei hun yn ffodus i osgoi cryfder y gwyntoedd a thonnau anferth y môr, ond nid taleithiau eraill.

Wrth i'r llifogydd gwaethaf effeithio ar Vermont, talaith ei gartref, meddai Bill McKibben, y newyddiadurwr amgylcheddol, "Nid yn unig y cawson ni'r llifogydd rhyfeddol hyn, ond ar yr un dydd yr oedd Corwynt Irene yn arllwys ei glaw, gosodwyd record tymheredd uchaf-erioed yn Houston, Texas, sef 109°F. Rydyn ni mewn sefyllfa newydd."

Wrth gyfeirio at stormydd mawr, meddai William Chameides, gwyddonydd atmosfferig ym Mhrifysgol Duke ac is-gadeirydd astudiaeth hinsawdd i Lywodraeth America, "Mae hi bron yn amhosibl i ni bwyntio at ddigwyddiadau penodol … a dweud mai newid hinsawdd oedd yr achos.

"Ar y llaw arall, gwyddom oherwydd newid hinsawdd fod y mathau hynny o ddigwyddiad yn debyg iawn, iawn, i ddod yn fwy cyffredin, yn fwy aml, yn fwy ffyrnig — sy'n gyson â newid hinsawdd."

Mae 2011 wedi bod yn flwyddyn o drychinebau tywydd amrywiol i'r Unol Daleithiau – ac mae gwledydd ledled y byd wedi bod yn diodde'n ofnadwy hefyd.

**► Erbyn Gorffennaf eleni, roedd mwy o iâ wedi toddi yn yr Arctig nag a recordiwyd erioed o'r blaen [Canolfan Eira a Iâ America]. Effaith, ac achos, cynhesu.**

### Archfarchnad yn targedu tref fach arall:

# Llandeilo dan warchae

**Gan TIM SHAW**
**Cyfarwyddwr Siop y Tŷ Gwyrdd, Llandeilo**

**FE allai hi wedi bod Asda, Tesco neu Morrisons, ond i dref fach wledig Llandeilo, Sainsbury yw'r un sy'n targedu'r ardal.**

Mae'r cwmni anferth rhyngwladol hwn yn gobeithio ymwthio i'r fasnach fanwerthu sy'n bodoli ar hyn o bryd gydag archfarchnad newydd, gan gynyddu elw'r cwmni a'i gyfran o farchnad manwerthu'r DG.

Cyflwynwyd cais cynllunio trwchus iawn i Gyngor Sir Gaerfyrddin i godi archfarchnad enfawr yn Rhosmaen, ar gyrion Llandeilo. Byddai'r datblygiad yn troi chwech erw a hanner o gefngwlad yn faes parcio ceir enfawr gyda chanolfan siopa, gan ddyblygu llawer o isadeiledd presennol Llandeilo gan gynnwys gorsaf betrol, caffïau ac unedau manwerthu eraill.

Fydd yr archfarchnad ddim yn rhan o Landeilo gan y bydd yn annibynnol ohoni, yn du hwnt o fawr, ac yn fygythiad i barhad busnesau presennol. Bydd yn gwanhau'r economi leol wrth sugno masnachu o'r ardal.

Os bydd Sainsbury yn agor yn Rhosmaen, bydd swyddi'n rhwym o gael eu colli mewn mannau eraill, a bydd rhaid i rai cyflogwyr lleol gau'n gyfan gwbl.

Cyn cyflwyno'u cais cynllunio, roedd Sainsbury wedi talu cynrychiolwyr PR yn eu siwtiau smart i lansio ymosodiad cydlynedig ar Landeilo, gan gynnal trafodaethau gyda Chyngor y Dref, y Siambr Fasnach ac eraill.

Buont, hefyd, yn noddi arddangosfa gyhoeddus yng nghanol y dref sydd wedi eu harwain i honni bod 80% o bobl leol yn ffafrio'r datblygiad. Un o'r sibrydion a aeth ar led o gylch y dref oedd bod y Sainsbury newydd wedi cael ei gytuno'n barod ac nad oedd pwynt gwrthwynebu.

Ond mae llawer o bobl leol yn gweld trwy'r twyll a bellach yn ymladd 'nôl. Mae bragdy llwyddianus Llandeilo, Evans ac Evans, dan arweiniad Simon Buckley, yn ymladd yn gyndyn i warchod y dref yn erbyn y cynnig. Mae Dyfodol Llandeilo, grŵp newydd sy'n cwrdd yn wythnosol, yn cynnal arolwg traffig ei hunain, ynghyd â holiaduron i fusnesau a siopwyr lleol. Bwriad y grŵp yw ceisio amddifyn buddiannau lleol a chymeriad unigryw'r dref.

Cydnabyddwyd hyn yn ddiweddar yn y ***Sunday Times*** a enwodd Llandeilo fel y lle mwyaf *cŵl* i aros ynddo yn y DG. Collir y natur unigryw hon os caniateir yr archnfarchnad.

Mae'r frwydr i achub Llandeilo a Dinefwr ar gerdded, a gobeithiwn y byddwn yn llwyddo yn y pendraw. Os methwn, bydd Llandeilo'n newid er gwaeth, gyda chymeriad y dref yn cael ei ddinistrio.

Fe'i gadewir fel cymaint o drefi eraill, yn ymlafnio i oroesi, ac yn dibynnu bron yn llwyr ar gwmniau rhyngwladol am bethau yr arferai pobl leol wneud drostynt eu hunain.

PARHAD O DUDALEN 7: Charlotte Davies

## Protestio pellach

McKibben ei hun.


Eisoes roedd mudiad 350.org wedi bod yn trefnu diwrnod o weithredu dros y Ddaear — *Dydd y Blaned Symudol* — i'w gynnal ar Fedi 24 gyda phethau fel ralïau beiciau a gwyliau gwyrdd yn digwydd ledled y byd (y cawn glywed amdano yn rhifyn nesaf **Y Papur Gwyrdd**). Ond, yn ôl Bill McKibben, mae'r mudiad hefyd yn bwriadu defnyddio dulliau tor-cyfraith eto — gan droi eu golygon tuag Ottawa, prifddinas Canada.

Meddai: "Ein bwriad yw parhau i ddefnyddio'n clyfrwch, ein creadigrwydd a'n cyrff. Canada fydd y canolbwynt nesaf ar gyfer anufudd-dod sifil."


## Tsieina'n troi at yr haul

**DISGWYLIR y bydd Tsieina'n dyblu ei gallu cynhyrchu trydan haul i ryw 2 gigawat erbyn diwedd y flwyddyn. Fel cynhyrchydd mwyaf y byd o baneli ffoto-foltaidd, mae Tsieina'n prysuro â'i chynlluniau i osod paneli haul ar gartrefi'r wlad.**


# Plant yn helpu Gwynedd i dorri at 60% ar y carbon




Sbarci a Fflic yn arbed ynni



◄Cadi'n asesu ystafell athrawon Ysgol Cefn Coch Penrhyndeudraeth



◄Aron a Gwern yn nodi defnydd ynni Ysgol O.M. Edwards, Llanuwchllyn

**MAE disgyblion mewn 35 ysgol gynradd ar draws Gwynedd wrthi'n brysur iawn ers dechrau Medi yn monitro defnydd ynni yr ysgol fel rhan o Gynllun Sbarci a Fflic.**

Dyma gynllun sy'n galluogi ysgolion i gystadlu yn erbyn ei gilydd mewn cynghrair arbennig sy'n eu hannog i geisio bod am y gorau i arbed ynni.

Dau gymeriad bywiog a lliwgar yw Sbarci a Fflic ac fe welir y cymeriadau yma yn y ffilm 'Sbarci a Fflic yn Chwythu Ffiws' ar wefan www.sbarciafflic.org. Trwy gael ychydig o hwyl a chellwair, mae Sbarci a Fflic yn ceisio helpu plant Gwynedd i ddarganfod ffyrdd syml o arbed ynni.

Nod y prosiect yma, sy'n rhan o Gynllun Rheoli Carbon Cyngor Gwynedd, yw addysgu disgyblion ar draws y Sir am y pwysigrwydd o ddefnyddio ynni yn ddoeth ac arddangos i bawb y gall pob ysgol arbed canran sylweddol (hyd at 10%) o'u defnydd ynni ac arian trwy wneud y pethau bychain yn unig.

Dywedodd y Cynghorydd Gareth Roberts, Uwch Arweinydd Amgylchedd Cyngor Gwynedd: “Mae pwyslais mawr y dyddiau hyn ar unigolion a sefydliadau i weithredu i atal eu heffaith ar newidiadau yn yr hinsawdd. Trwy annog ysgolion ac adeiladau eraill y Cyngor i ddefnyddio ynni yn fwy effeithlon, nod Cyngor Gwynedd ydi cyrraedd ei dargedau heriol i leihau ei allyriadau carbon o 30% erbyn 2014/15 ac o 60% erbyn 2020/21.

“Mae'n braf gweld y plant yn cymryd diddordeb byw mewn maes mor bwysig. Maent yn esiampl i ni i gyd o'r modd y gellir mynd ati i geisio lleihau ein Ôl-troed Carbon.”

**Erthygl gan MARIAL EDWARDS**

Fel rhan o'r cynllun, mae'r disgyblion yn cymryd rôl weithredol iawn gan arwain ar y gwaith o fonitro defnydd trydan a thanwydd yr ysgol a chreu ymgyrchoedd hwyliog wrth geisio annog pawb i leihau Ôl-troed Carbon yr ysgol.

Mewn ymateb i'r cynllun, dywedodd Rhys Glyn, Pennaeth Ysgol Cefn Coch, Penrhyndeudraeth:

“Mae'r cynllun yn gyfle gwych i'r disgyblion gael profiadau ymarferol i geisio arbed ynni. Maent wedi clywed cymaint o sôn am greu ysgol carbon isel ers peth amser bellach, ond trwy'r cynllun hwn cant gyfle i fod yn weithredol a chyfrannu'n uniongyrchol at yr ymgyrch.

“Mae'n codi ymwybyddiaeth holl blant yr ysgol a maes o law eu rhieni. Heb os felly, bydd y cynllun yn dylanwadu ar eu ffordd o fyw i'r dyfodol.”

**► Am ragor o fanylion ar y Cynllun Sbarci a Fflic, cysylltwch â Marial Edwards o dîm Cadwraeth Ynni Cyngor Gwynedd ar 01286 679266 neu ebostiwch ynni@gwynedd.gov.uk**



Grwp Gwyrdd Ysgol y Garnedd, Bangor, yn rhan o'r ymgyrch i leihau'r gwastraff ynni



▲Llywarch, Mared, Elis a Gwern — ymhlith y disgyblion prysur yn Ysgol O.M.Edwards, Llanuwchllyn



▲ Grŵp Gwyrdd Ysgol Bronyfoel, y Fron — hwythau hefyd yn barod i ffrwyno'r defnydd ynni

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd

Gwarchod y byd yng Nghymru — dewisiad cymunedol, hwyliog a chynaladwy



## TRAFOD DYFODOL YNNI ADNEWYDDOL CYMRU

CYNHADLEDD Genedlaethol i'w chynnal yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen, Machynlleth, ar bwnc Dyfodol Ynni Adnewyddol Cymru. ► Dydd Llun, Hydref 17. 9.30yb—5. Cadeirydd, Cynog Dafis. Archebu lle: 02920 487099 (gw.tud 2)

## Llandeilo

CYFARFOD cyhoeddus yn Llandeilo ar ddydd Mawrth, Hydref 5, i drafod cynllun Sainsbury i godi archfarchnad yno. Trefnwyd gan Gyngor y Dref. Esboniad gan Sainsbury o'u gweledigaeth a'r gwrthwynebiad yn cael ei leisio gan fudiad Dyfodol Llandeilo, Simon Buckley o gwmni bragdy lleol Evans and Evans, ac eraill. Neuadd Ddinesig, Heol Cilgant, am 7.30yh.

## Ynys Môn

CYNHELIR Gŵyl Fwyd Ynys Môn fel rhan o'r hen Ŵyl Llymarch yng Ngwesty Bae Trearddur ar Sadwrn a Sul, Hydref 8 a 9. Bydd llu o gynhyrchwyr Cymreig yn cael cyfle i arddangos, hyrwyddo a gwerthu eu bwydydd a'u diodydd. Caiff cynhyrchwyr arbenigol eraill eu gwadd trwy wahoddiad y pwyllgor trefnu. Cynhelir y Gystadleuaeth Selsig flynyddol ar y dydd Sul a bydd castell bownsio a pheintio wynebau i ddiddanu'r plant.
► Manylion: 01248 725700

## Tregaron

NOSON ddifyr yn nhafarn y Talbot,Tregaron, wrth i'r hanesydd, awdur a darlledwr Dr John Davies arwain cwsmeriaid ar daith drwy amser. Teflir goleuni ar fywyd Ceredigion yn y Canol Oesoedd. Nos Wener, Hydref 7, am 8 o'r gloch.

## Castell-nedd

MAE Gŵyl Fwyd a Diod Castell-nedd wedi tyfu eleni i fod yn achlysur deuddydd – sef, ar ddydd Gwener, Hydref 7, a Sadwrn, Hydref 8. Bydd dros 60 o gynhyrchwyr bwydydd a diodydd amrywiol o'r cyfan o ddeheubarth Cymru yno, gan gynnwys stondinwyr Marchnad Fictorianaidd dan-do enwog y dref.
► Gwybodaeth: www.neathfoodfestival.co.uk/ neu ffoniwch 01639 813166

## Llangollen

DYMA fydd rhif 14 o'r ŵyl fwyd wyddiannus hon sydd wedi cryfhau cysylltiadau cymunedol eleni. Bydd mwy o bwyslais ar goginio traddodiadol, crefftau, tyfu ffrwythau a llysiau a gwneud jamiau. Dros 100 o gynhyrchwyr lleol. Dudley Newbery yn arddangos ei sgiliau yn y Pafiliwn. Sadwrn a Sul, Hydref 15 ac 16.
Manylion: www.llangollenfoodfestival.com

## Y Bontfaen

Y LLYNEDD, Gŵyl Fwyd a Diod y Bontfaen, Bro Morgannwg, a enwyd fel Achlysur Cymunedol Gorau'r genedl gan Wobrwyon Twristaidd Cymru. Disgwylir tua 15,000 o ymwelwyr i fwynhau'r 80 o stondinau. Dydd Sadwrn, Hydref 29 a Sul, Hydref 30. Bydd Gŵyl Cwrw Go Iawn yn y Vale of Glamorgan Inn a ffair grefftau yn yr Hen Ysgubor.
► Gwybodaeth: www.cowbridgefoodanddrink.org neu ffoniwch 07875 290428

## Bwganod

Y TALBOT, Tregaron eto — Dewch i ddychryn am eich bywyd yno'r Calan Gaeaf hwn wrth i'r awdur straeon arswyd, Towyn Jones, ddarllen rhywfaint o'i straeon mwyaf brawychus i ni. Nos Lun, Hydref 31, am 8 o'r gloch.

## Aberteifi

DIWRNOD o gyffro yn hen dref Aberteifi wrth i'r trigolion gynnal eu Dydd y Ffair blynyddol gan gynnwys masnach stryd a ffair draddodiadol. Dydd Iau, Tachwedd 10.
► Gwybodaeth: 01239 613966 / 01970 636713

## Dre-fach

FFAIR Grefftau Nadolig yn yr Amgueddfa Wlan, Dre-fach, Felindre, Sir Gaerfyrddin. Dydd Gwener, Tachwedd 11, 10yb-3yp.
► Mwy o wybodaeth: 01559 370929

## Conwy

DYMA un o wyliau mwyaf Cymru – ar Sadwrn a Sul, Hydref 22 a 23. 150 o stondinau ar gael mewn sawl man trwy'r dref, a chogyddion Cymreig o fri yn dangos eu sgiliau. Rhywbeth ar gyfer y teulu i gyd. Bwydydd lleol ac o bedwar ban byd.
Manylion: www.gwleddconwyfeast.co.uk/ neu ffôn 01492 593874

## Abertawe

BYDD miloedd yn tyrru eto eleni i Ffair Werdd Abertawe yn Amgueddfa'r Glannau Genedlaethol ar Sadwrn a Sul, Tachwedd 26 a 27. Amrywiaeth helaeth o stondinau. Lle gwych am anrhegion Nadolig. 10-5 ar y Sadwrn, a 10 – 4 ar y Sul.
► Gwybodaeth: hannah@environmentcentre.org.uk neu ffôn 01792 480200

## ♫ Gwerin ♫

SESIYNAU gwerin misol Tŷ Tawe, Christina St., Abertawe. I gerddorion a gwrandawyr, anffurfiol, yn y bar, mynediad am ddim. Hydref 14, Tachwedd 11, Rhagfyr 9; 9yh.


**HYSBYSEBWCH YN Y PAPUR GWYRDD**

**Am *Wybodaeth a Chostau Hysbysebu yn* *Y Papur Gwyrdd*, ebostiwch: ypapurgwyrdd1@btinternet.com, neu ffoniwch 01792 798162. Cysylltwch erbyn Hydref 31 ar gyfer rhifyn Nadolig a Chalan (Rhagfyr / Ionawr)**


**CROESO I'CH SYNIADAU AR GYFER Y PAPUR GWYRDD**

**► Croesawn erthyglau, lluniau, eitemau newyddion a syniadau i'r Papur Gwyrdd — erbyn Hydref 31 os ar gyfer rhifyn Nadolig a Chalan (Rhagfyr / Ionawr). Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Ffôn: 01792 798162. Cyfeiriad: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX. Cofiwch ein bod ar Weplyfr hefyd.**


**Ewch at y Wê-Borth Gymraeg i'r Mudiad Ecolegol Byd-eang**

**www.ypapurgwyrdd.com**

**GWEFAN Y PAPUR GWYRDD**

Cymru a'r Ddaear * Gwyddoniaeth
Ymgyrch Cymru * Cysylltiadau

LLYTHYR O KENYA GAN BRANWEN NICLAS

# Tristwch y sychdwr

Annwyl Ddarllenwyr,

Cyfarchion o Kenya. Rwyf yma yn ardal Marsabit am yr ail waith eleni'n gweithio ar ran Cymorth Cristnogol. Dyma un o'r ardaloedd sydd wedi dioddef waethaf yn Kenya yn sgil y sychdwr mwyaf difrifol yn y wlad ers 60 mlynedd.

Heddiw euthum yn ôl i bentref llychlyd Parkishon, cymuned Rendille ar gyrion tref Marsabit, gan ail-gwrdd â nifer o'r trigolion. Cymuned odro oedd hi, ond dros y flwyddyn ddiwethaf bu farw tua 10,000 o'u geifr a'u gwartheg oherwydd y sychdwr.

Pauline yw un o'r trigolion; mae'n 30 oed, ac yn fam i 5 o blant. Mae hithau wedi colli'r mwyafrif o'i geifr, ond mae ganddi bump ar ôl, a dau myn gafr ifanc.

"Mae'r sychdwr wedi effeithio pawb yma", meddai Pauline, "Dydyn ni erioed wedi profi dim byd tebyg. O'r blaen, roedden ni'n hunangynhaliol a'n plant yn iach a llawn llaeth. Ond bellach, does dim porfa ar ôl am filltiroedd maith ac mae'r rhan fwyaf o'n hanifeiliaid wedi llwgu i farwolaeth.

"Gan fod dŵr a bwyd mor brin 'dwi'n aml yn mynd heb fwyd er mwyn bwydo'r plant. Mae hi mor anodd pan maent yn gofyn am fwy o fwyd, a finne heb ddim. Ond mae mynd heb fwyd fy hun yn golygu nad oes llaeth yn fy mronnau pan dwi'n bwydo Leo, y mab ieuengaf sy'n 9 mis oed. Dwi wedi gweld llawer o blant y pentre'n bwyta pridd gan eu bod mor llwglyd."



Pauline a'i phlant, Stella a Leo

Mae partner Cymorth Cristnogol, CCS, wedi dechrau ymweld â'r pentre'n gyson. Maent yn dosbarthu dŵr mewn tanceri, dosbarthu bwyd ar gyfer yr anifeiliaid a monitro iechyd y plant, yr henoed, y gwragedd beichiog a'r mamau sy'n bronfwydo. Heddiw, rhannu sachau bwyd anifeiliaid oedd y dasg. Roedd cynnwrf disgybledig wrth weld y lori'n cyrraedd.

Mae'r sachau bwyd wedi trawsnewid pethau i bobl fel Pauline. "Pan dwi'n rhoi'r bwyd yma i'r geifr, mae nhw mor hapus", meddai. "Mae'n ddoniol, gan eu bod nhw hyd yn oed yn adnabod y sachau erbyn hyn! Mae'n golygu fy mod yn gallu rhoi llaeth i'r plant, ac mae'r llaeth o ansawdd gwell."

Mae'r cymunedau'n hynod fregus, a phwy a ŵyr beth fydd eu dyfodol. Mae newid hinsawdd, prinder adnoddau a diffyg cyfleon yn sgil y sychdwr wedi gyrru mwy o bobl mewn i dlodi dybryd. Ond ynghanol y dioddefaint, profir urddas, cryfder a chroeso twymgalon i ymwelydd fel fi. A bydd Cymorth Cristnogol a'r partneriaid yn parhau i weithio yma, law yn llaw â'r cymunedau gan obeithio am ddyfodol mwy cynaladwy i drigolion gogledd Kenya.

Gyda chofion a diolch i bawb am gefnogi Apêl Argyfwng Dwyrain Affrica,

Branwen Niclas

► *Mwy am Gymorth Cristnogol: www.twitter.com/DileuTlodi*

# Y byd a'r aelwyd

**Golwg 'cartrefol' ar yr ymgyrch 'global'**

## Mwynhau ein cynhaeaf bach

FEL *rookies* garddio, mae'n chwith gan y ddau ohonom na fuom yn talu sylw at sgiliau'n rhieni yn yr ardd. O ganlyniad, rhaid i ni ddysgu o'r newydd gan greu llyfrgell swmpus o gyfrolau ar dechnegau garddio yn y broses (a ninnau'n gynt wedi ymdynghedu i leihau'r pwysau sylweddol ar ein silffoedd !).

Ond, yn ara' deg, dysgu yr ydym. A buom yn mwynhau ffrwyth — a llysiau — ein llafur, er oerfel glawog Awst ar ein llethr yn Nhreforys sy'n wynebu'r gogledd-ddwyrain ar draws Cwm Tawe. Y pecampwyr gyda ni eleni fu'r mwyar glas (os dyna'r Gymraeg am y *blueberries* Americanaidd y mae Charlotte yn dyner ei gofal amdanynt). Maent wedi profi'n doreithiog yn eu potiau ac yn hynod flasus gyda hufen iâ Joe's Abertawe. A dyna'r cyrens coch sy'n ardderchog eto, a'r mefus bach a mawr sy'n felys, felys.



Buom yn dathlu bod ein riwbob wedi aeddfedu'n hyfryd ar gyfer tarten a *crumble*. Ac, wedi cychwyn araf, daeth y ffa dringo i gyfrannu'n weddol o hael i'n prydau bwyd, gyda'n cennin a'r winwns yn addo'n dda.

Ar y llaw arall ... bu'r pys yn fethiant, ein bresych wedi diodde'n enbyd gan y malwod melltith, yr India corn — wedi llwyddiant ysgubol y llynedd — yn eiddil dros ben, a'r ddwy goeden afal fach newydd yn destun pryder.

Cymysglyd, felly, ond addawol. A phopeth gyda gwrtaith naturiol, er mawr canmoliaeth byd natur.

Ond rhaid cyfeirio, yn ein brwdfrydedd, at ddwy seren lachar newydd yn ffurfafen ein garddio. Er mawr lawenydd, cawsom gnwd bach o eiryn glas melys hyfryd ar ein coeden *damson* sydd ond yn ei hail flwyddyn, ac — yn llecyn mwyaf 'heulog' yr ardd — mae sawl clwstwr o rawnwin wedi dod i'r golwg ar y winwydden Brandt ifanc. Eisoes mae un o'n cymdogion yn son am win 'Chateau Dafis' y dyfodol!

## Troi at hunan gynhyrchu?

YDY, mae garddio'n ysgafnhau rhywfaint ar ein hôl troed carbon, yn lleihau ar ddefnydd olew trwy gompostio'n organig yn lle defnyddio cemegolion, ac yn rhoi chwistrelliad o foddhad wrth fod allan yn yr awyr agored yn agos at blanhigion a phridd.

Ond mae ynni, hefyd, yn dal yn bwnc sy'n uchel ar radar amgylcheddol ein haelwyd. Rydym yn parhau'n hapus gyda'n cyflenwyr ynni, *Good Energy*, gan gadw at ynni adnewyddol yn unig. Ond maen nhw, fel pawb arall, yn wynebu costau uwch — ac mae ein biliau wedi codi o ganlyniad.

Rydym yn edrych ar ymarferoldeb creu ein trydan ein hunain trwy baneli haul, ac yn ddiolchgar i un teulu o danysgrifwyr **Y Papur Gwyrdd** am drafod eu profiad nhw gyda ni. Mae'r diddordeb mewn hunan-gynhyrchu trydan ar gynnydd cyflym: cawsom daflenni ar faes Sioe Amaethyddol Gŵyr gan nid llai na thri chwmni oedd yn cynnig gosod paneli ffotofoltaidd felly.

Yn y cyfamser, er mwyn ceisio lleihau ar ein defnydd ynni, rydym wedi codi *porch* bach gwydr o gwmpas ein drws cefn allanol. Y bwriad yw denu gwres naturiol i'r tŷ dros gyfnodau heulog tra'n atal colli gwres yn ystod cyfnodau gaeafol.

## Cefnogwn nhw!

MAE Hywel wedi bod am dro i bentref Fochriw yn ein hen gynefin, Blaenau'r Cymoedd. Aeth yno ar gyfer cyfarfod o'r trigolion sy'n gwrthwynebu bwriad cwmni pwerus Miller Arian i gloddio pwll glo brig maint Ffos-y-fran enfawr a hyll sydd uwchben Merthyr Tudful druan.

Roedd yn gyfle i rannu gwewyr cymuned dlawd arall sy'n wynebu cael ei haberthu ar allor elw glo brwnt.

Anrhydedd oedd cwrdd â'r criw bach dewr, diffuant a dyfeisgar sy'n ceisio atal chwalfa i'w hardal ac i'r Ddaear gron. Maen nhw'n haeddu'n cefnogaeth ble bynnag rydym yn byw.

**Hywel a Charlotte**

Mynnwch gwsg
ym mynwes natur






... gan gynnwys
i'r babi

# Matresi Organig gan Abaca

Abaca, Uned 1,
Parc Busnes Tŷ Croes,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin SA18 3RZ

**01269 598491**
**info@abacaorganic.co.uk**

